

Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community

# ADOLYGIAD HAF 2023

Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

monmouthshire
sir fynwy



# MonLife

## Cenhadaeth:

Yn hyrwyddo bywydau mwy iachus a phrofiadau ysbrydoledig a'n hyrwyddo hyfywedd Sir Fynwy fel lle gwych.

## Gweledigaeth:

Ymgyfoethogi bywydau pobl a'n creu lleoedd hyfyw.

## Amcanion:

- Ymgyfoethogi bywydau pobl drwy gyfranogiad a gweithgarwch
- Adeiladu cymunedau cryf yn Sir Fynwy
- Datblygu sgiliau arwain ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

## Gwerthoedd:

- Tryloywd-er
- Tegwch
- Caredigrw-ydd
- Hyblygrwydd
- Gweithio fel tîm

MonLife
Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community

# Darpariaethau Haf

**Gemau Sir Fynwy** - Mae Gemau Sir Fynwy yn ddarpariaeth chwaraeon drwy'r dydd a ddarperir ar draws ein pedair Canolfan Hamdden MonLife. Nod y rhaglen yw hyrwyddo dysgu sgiliau newydd, datblygu hyder, cwrdd â phobl newydd, ac yn bwysicaf oll cael hwyl trwy chwaraeon. Mae pob diwrnod yn llawn gweithgareddau, gydag amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon i blant a phobl ifanc eu mwynhau.

**Bwyd a Hwyl** - Mae'r cynllun Bwyd a Hwyl yn rhaglen addysg yn yr ysgol sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi, Chwarae a phrydau iach. Roedd y rhaglen hefyd yn galluogi teuluoedd i gael Bag Bwyd a oedd yn cynnwys dewis eang o eitemau prif fwyd. Trwy weithio gyda phartneriaid ym maes Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r tîm wedi cyflwyno'r rhaglen ar draws pedwar lleoliad Ysgol Gynradd Sir Fynwy haf eleni am gyfanswm o bum wythnos, gyda'r effaith lawn yn cael ei dangos isod.

**Chwarae Gweithredol / Aros a Chwarae** - Mae ein sesiynau Chwarae Gweithredol ac Aros a Chwarae yn rhedeg drwy'r rhan fwyaf o gyfnodau gwyliau'r ysgol. Yr haf hwn roedden nhw'n rhedeg unwaith yr wythnos o Gas-gwent a'r Fenni. Roedd y sesiynau 2 awr hyn yn cwmpasu'r egwyddorion Gwaith Chwarae fel yr amlygwyd yn y ddogfen 'Cymru: Gwlad lle mae Cyfle i Chwarae'. Mae'r egwyddorion gwaith chwarae'n nodi bod y broses chwarae i blant yn cael ei dewis yn rhydd, wedi'i chymell yn gynhenid ac wedi'i chyfarwyddo'n bersonol. Rhoddwyd cyfle i'r plant ddewis o amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau a oedd yn cefnogi eu datblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol, gwybyddol a chreadigol. Mae'r tîm wedi cyflwyno sesiynau yn Y Fenni, Cas-gwent, Magwyr a Gwndy, a Wyesham haf eleni.







MonLife
Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community

# Darpariaethau Haf

**Gwersylloedd Rygbi** - Wedi'u cyflwyno mewn partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru a'r Dreigiau, cynhaliwyd ein gwersylloedd rygbi haf yn Ysgolion Cynradd Deri View, Overmonnow, Thornwell a Castle Park. Roedd y sesiynau hyn yn darparu gweithgareddau rhyngweithiol hwyliog yn seiliedig ar hyfforddiant rygbi a rhoddwyd pryd poeth i'r plant ar ddiwedd y sesiwn.

**Canolfannau Ieuenctid** - Roedd ein canolfannau yn brysur dros yr haf, gyda llif cyson o bobl ifanc yn mynd a dod ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fel mwynhau cwmni, chwarae Xbox a Switch, gemau cardiau, gemau pêl awyr agored, celf a chrefft, a gemau a heriau dan do. Roeddem yn ddigon ffodus i gael digon o fwyd ar gael i fwydo ein holl bobl ifanc drwy gydol yr haf, ac fe wnaethant gymryd rhan mewn gweithgareddau coginio bob sesiwn.

**Fforwm Ieuenctid Preswyl** - Cymerodd 24 o bobl ifanc o dde'r sir ran mewn preswylfa yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored Gilwern, dros y tridiau cymerodd y bobl ifanc ran mewn rhaglen llawn dop o gemau, heriau, ogofa, dringo, canŵio a thân gwersylla. Roedd yn gyfle i bobl ifanc gael hwyl i feithrin perthnasoedd a chymryd rhan mewn heriau gan eu gwthio allan o'u Parth cysur.

**Treftadaeth MonLife** - Drwy gydol tymor yr haf, estynnodd safleoedd Treftadaeth MonLife groeso cynnes i unigolion o bob grŵp oedran, gan gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau difyr megis sesiynau crefft, perfformiadau theatr awyr agored, teithiau tywys, rhaglen Fforwyr Bach yng Nghastell Cil-y-coed a llawer mwy. Ar ben hynny, roedd yr haf hwn yn nodi dychweliad disgwyliedig teithiau trên yn Hen Orsaf Tyndyrn ac yn cynnwys Cyngerdd High Flying Birds Noel Gallagher yng Nghastell Cil-y-coed.





# MonLife Yn Weithredol

## Penawdau Haf 2023





**718**

Dyma faint o blant myny-chodd Gemau Sir Fynwy yn ein pedair canolfan hamdden

**3,185**

Cyfanswm presenoldeb ar gyfer TMG ar draws ein pedair canolfan hamdden

**423**


Dyma'r nifer o bobl a aeth i'r sesiynau 'Nofio am Ddim' ar draws ein pedair canolfan hamdden








# TMG




**92%**

Dyma'r gyfran o blant dywedodd eu bod wedi cwrdd â ffrind newydd yn ystod Gemau Sir Fynwy



**71%**

Dyma'r gyfran o blant a roddodd gynnig ar chwaraeon newydd yn ystod Gemau Sir Fynwy



**98%**

Dyma'r gyfran o blant dywedodd y byddent yn dod yn ôl i Gemau Sir Fynwy

**9.2**

Dyma oedd y sgôr cyfartalog ar gyferpa mor gyfeillgar oedd staff

**8.9**

Dyma oedd y sgôr cyfartalog ar gyfer faint o hwyl gafodd y plentyn

**8.4**

Dyma oedd y sgôr cyfartalog ar gyfer pa mor debygol y byddai cyfranogwyr yn argymell Gemau Sir Fynwy i'w ffrindiau a'u teulu

(TAKEN FROM 411 CHILDREN WHO ATTENDED TMG)

# MonLife Cysylltu

## Penawdau Haf 2023

**10,605**

Dyma oedd cyfanswm nifer y mynychwyr ar draws yr holl ddarpariaethau

**8,816**

Dyma sawl pryd bwyd a darparwyd ar draws ein holl ddarpariaethau haf

**3,363**

Dyma sawl awr o ddarpariaeth chwarae a gynigiwyd ar draws HOLL ddarpariaethau'r haf

**91**

Dyma sawl sesiwn gwasanaeth ieuenctid a gynhaliwyd dros yr haf

**2,598**

Dyma faint o bobl ifanc a gysylltwyd â hwy dros yr haf

**407**

Dyma sawl awr o ymgysylltu a wnaed drwy ein gweithwyr ieuenctid dros yr haf

**150**

Dyma faint o blant a gefnogwyd drwy ein'Chwarae Gweithredol' a 'Sesiynau Aros a Chwarae'

**413**

Dyma sawl parsel bwyd a gafodd eu casglu a'u darparu i deuluoedd

**81**

Dyma'r nifer o blant a gymerodd ran yn ein Gwersylloedd Rygbi'r Haf

**90**

Dyma'r nifer o blant ag anghenion amrywiol a gafodd fynediad at ddarpariaeth wedi'i thargedu

MonLife
CYSYLLTU CONNECT

# MonLife Cysylltu

## Penawdau Haf 2023



BWYD A HWYL
FOOD AND FUN



**661**
Dyma sawl plentyn a gafodd eu cefnogi drwy ein darpariaeth bwyd a hwyl

**4,316**
Dyma gyfanswm y presen-oldeb ar gyfer ein darpariaeth bwyd a hwyl

**8,632**
Dyma gyfanswm y nifer o brydau bwyd a hwyl a darparwyd

**2,821**
Dyma oedd cyfanswm presenoldeb ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim

**74**
Dyma'r nifer o gyfleoedd cyflogaeth a grëwyd, gan arwain at 480 awr o ddarpariaeth

**39**
Dyma'r nifer o blant ag anghenion amrywiol a gafodd fynediad at fwyd a hwyl

www.monlife.co.uk/connect

MonLife TREFTADAETH HERITAGE

# MonLife Treftadaeth

## Penawdau Haf 2023

**633**

Dyma oedd cyfanswm y bobl a fynychodd sioeau theatr awyr agored yng Nghastell y Fenni

**109**

Dyma oedd y nifer o blant a fynychodd ein sesiynau crefft prynhawn ar safleoedd MonLife

**21, 723**

Dyma sawl paned o goffi a the dull barista a gafodd eu gwasanaethu ar ein safle Treftadaeth

**2,018**

Dyma sawl taith trên a redwyd yn yr Hen Orsaf, Tyndyrn dros yr haf

**37**

Dyma'r nifer o sesiynau 'Fforwyr Bach' a 'Helfeydd Pryfed' a gynhaliwyd yng Nghastell Cil-y-coed

**60**

Dyma'r nifer o deithiau tywys llawn a gynhaliwyd yng Nghastell Cil-y-coed dros yr haf

**300**

Dyma'r nifer o bobl a fynychodd sioeau theatr awyr agored yng Nghastell Cil-y-coed

**7,500**

Dyma'r nifer o bobl a fynychodd ein cyngerdd Noel Gallagher. Y digwyddiad mwyaf yng Nghil-y-coed ers COVID

www.monlife.co.uk/heritage




## Cyfanswm y plant a'r bobl ifanc a gefnogwyd:

**1,936**
Dan 11 oed

**520**
11 oed +

Rydym mor falch o'n staff MonLife, a'r gwaith caled sydd wedi'i wneud er mwyn gwneud y rhaglenni hyn yn gymaint o lwyddiant, ac yn bwysicach, sydd wedi darparu haf o hwyl i'n cymunedau lleol.

Diolch yn fawr iawn i'n partneriaid, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, am y gefnogaeth barhaus.

www.monlife.co.uk